Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

seneddDCC@senedd.cymru

22 Chwefror 2022

Annwyl Huw,

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr at y Prif Weinidog, yn ogystal â'm presenoldeb yn y Pwyllgor ar 17 Ionawr, ysgrifennaf atoch i rannu rhagor o wybodaeth â chi mewn perthynas â gallu deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Mae'r pwysau ar ein gallu i ddeddfu yn parhau, ond rydym yn cymryd camau i ddiwallu'r galw hwnnw. Rydym yn adolygu ein prosesau ar gyfer llunio deddfwriaeth yn rheolaidd ac mae'r Gweinidogion yn cadw golwg agos ar y gwaith o gyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol. Maent yn sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cymryd, pan fo angen, i adrefnu adnoddau yn unol â blaenoriaethau deddfwriaethol, er enghraifft y nifer fawr o ddarnau o ddeddfwriaeth sydd wedi bod yn angenrheidiol er mwyn ymateb i bandemig y coronafeirws.

Ynglŷn â'r cwestiwn ynghylch a oes adnoddau yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru i gynyddu'r gallu deddfwriaethol, mae ein gwaith o gyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol yn elfen o waith y Llywodraeth gyfan. O ganlyniad, nid oes dyraniad cyllideb ar wahân i'r gwaith hwnnw; caiff y gyllideb ei dyrannu ar sail portffolio.

Mewn perthynas â'r rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, wrth i'r Bil Deddfwriaeth fynd drwy gamau'r Senedd, roedd y Memorandwm Esboniadol yn amlinellu'r costau dangosol ar gyfer y staff ychwanegol yr oedd eu hangen er mwyn cynyddu'r gallu i ddrafftio a chyfieithu deddfwriaeth, yn ogystal ag aelodau staff eraill i weithio ar y prosiectau nad ydynt yn rhai deddfwriaethol.

Ers i'r gwaith ddechrau ar baratoi'r Biliau cydgrynhoi newydd a chyflwyno prosiectau hygyrchedd eraill, rydym wedi sefydlu Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol. Wrth staffio'r tîm hwnnw, cafodd rhai swyddi eu hariannu o'r newydd ac ad-drefnwyd rhai swyddi a oedd yn bodoli eisoes.

O ran gallu Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru i lunio deddfwriaeth, mae proses o recriwtio cyfreithwyr wedi'i chynnal yn gyson dros y ddwy flynedd diwethaf er mwyn ceisio lleihau'r risg y gallai swyddi gwag ei achosi. Yn ogystal, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi mynd ati i recriwtio staff ar secondiad er mwyn ehangu'u hadnoddau pan fo angen i gefnogi'r gwaith.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ers nifer o flynyddoedd, rydym wedi bod yn cynnal gweithgareddau dysgu a datblygu helaeth ar gyfer staff sy'n gweithio ar lunio deddfwriaeth. Ers dechrau'r pandemig, mae wedi bod yn ofynnol inni ailgynllunio'r gweithgareddau dysgu hyn er mwyn cynnig cyfleoedd yn rhithwir, yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Mae hyn, fodd bynnag, wedi'i gwneud yn haws i staff gael gafael ar hyfforddiant ar ddeddfwriaeth ar draws Llywodraeth Cymru waeth ble yng Nghymru y maent wedi'u lleoli.

Rydym yn falch o'r modd yr ydym wedi llwyddo i greu corff sylweddol o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-deddfwriaeth. Rydym yn symud ymlaen â rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol y chweched Senedd gan ymrwymo i ddeddfu mewn meysydd sy'n cynnwys trethi Cymreig, partneriaeth gymdeithasol a chaffael cyhoeddus, amaethyddiaeth a phlastigau untro.

Edrychaf ymlaen at fod yn bresennol unwaith eto yn y Pwyllgor ar 28 Chwefror.

Yn gywir,

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution